

Y PENWYTHNOS MWYAF GAN Y BBC

Amodau a Thelerau Cyffredinol Parcio/Parcio a Theithio

SYLWER EICH BOD YN PRYNU TOCYN AR GYFER UN O FEYSYDD PARCIO SWYDDOGOL Y DIGWYDDIAD - NID YDYCH YN PRYNU TOCYN I'R DIGWYDDIAD.

DINAS A SIR ABERTAWA SY'N GWEITHREDU MEYSYDD PARCIO'R DIGWYDDIAD

1. Cedwir yr hawl gan Ddinas a Sir Abertawe i wrthod mynediad i'r deiliad, os bydd deiliad y tocyn ym marn resymol yr hyrwyddwr, yn berygl i ddiogelwch y gynulleidfa a/neu'r deiliad a/neu'n effeithio ar fwynhad y gynulleidfa a/neu weithrediad y digwyddiad.
2. Nid yw Dinas a Sir Abertawe'n derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled, niwed neu ddifrod i'r deiliad neu eiddo'r deiliad.
3. Os caiff y digwyddiad ei ganslo, gall y deiliad ofyn i Ddinas a Sir Abertawe ad-dalu gwerth y tocyn parcio. Bernir y digwyddiad aml-lwyfan hwn drwy gyfeirio at y thema gyffredinol yn hytrach na'r artistiaid unigol sydd wedi'u trefnu. Felly os na fydd artist a drefnwyd yn gallu perfformio dan amgylchiadau na ellir eu hosgoi, ond mae'r digwyddiad yn parhau, ni roddir ad-daliadau. Ni ellir ad-dalu ffioedd cadw lle na chostau postio.
4. Er mwyn osgoi amheuaeth, os yw deiliad tocyn yn dewis peidio â defnyddio tocyn am unrhyw reswm, ni roddir unrhyw ad-daliad.
5. Ni chaiff cerbydau ddychwelyd i'r maes parcio ar ôl iddynt adael.
6. Efallai bydd y meysydd parcio ar safleoedd tir glas a gall y ddaear fod yn anwastad. Efallai y bydd ffyrdd a rampiau dros dro. Byddwch yn ofalus wrth gerdded ar y ffyrdd a'r rampiau hyn ac oddi arnynt neu wrth eu croesi mewn cadeiriau olwyn neu fygis.
7. Er mwyn atal twyll, ni fydd tocynnau'n cael eu newid ac nid ad-delir prisiau tocynnau os anghofir tocyn, ei gollu, ei ddifwyno, ei ddifrodi neu os nad yw ar gael.
8. Efallai codir ffi weinyddol/archebu ar gyfer cyhoeddi'r tocynnau; gall hyn amrywio gyda phob Swyddfa Docynnau unigol.
9. Ni ellir ailwerthu unrhyw docynnau, eu defnyddio ar gyfer cystadleuaeth, hyrwyddiadau neu letygarwch heb ganiatâd ysgrifenedig Dinas a Sir Abertawe. Bydd unrhyw docynnau sy'n cael eu hailwerthu neu eu trosglwyddo yn y ffordd yma'n ddirydd a gellir gwrthod mynediad i'r deiliad.
10. O ran diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, barbeciws, canhwyllau na fflaglau wedi'u cynnu.
11. Os bydd y deiliad yn torri unrhyw un o'r amodau hyn, mae Dinas a Sir Abertawe'n cadw'r hawl i ganslo'r tocyn a chadw unrhyw arian a dalwyd amdano.
12. Rhaid i ddeiliaid tocynnau gydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau a roddir gan bersonél a stiwardiaid y digwyddiad pan fyddant yn y digwyddiad.
13. Mae deiliaid tocynnau'n rhoi caniatâd i'w ffilmio, i gael eu lluniau wedi tynnu a'u recordio ac yn deall efallai y gall ffotograffau, ffilmiau neu recordiadau gael eu darlledu, eu cyhoeddi, eu trwyddedu neu eu defnyddio am byth (heb daliad).
14. Mae deiliaid tocynnau'n cytuno y bydd unrhyw ddelweddau, fideos neu recordiadau sain personol a geir yn y digwyddiad yn cael eu defnyddio at ddibenion preifat a domestig yn unig ac ni allant gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol, ar y rhyngwyd neu fel arall.

15. Mae hawl gan Ddinas a Sir Abertawe i gopïo, darparu a defnyddio unrhyw luniau, fideos neu recordiadau sain y mae deiliaid tocynnau'n eu creu, heb orfod talu na chydabod bod deiliad y tocyn wedi creu'r deunydd.
16. Mae Dinas a Sir Abertawe'n cadw'r hawl i newid yr amserlen a hysbysebir.
17. Mae'r rhai sy'n dod i'r digwyddiad yn rhyddhau'r trefnwyr (Dinas a Sir Abertawe) o unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i eiddo personol a all ddeillio o'r digwyddiad. Ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
18. Ni chaiff tocynnau eu hailwerthu (gan gynnwys ocsiwn) na'u hysbysebu i'w gwerthu. Ni chaiff tocynnau eu defnyddio er mwyn hysbysebu, hyrwyddo, codi arian nac at ddibenion marchnata (gan gynnwys cystadlaethau a swîps).
19. Mae'r rhai sy'n dod i'r digwyddiad yn deall y gall y trefniadau ar gyfer y digwyddiad gael eu newid gan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr, a all arwain at oedi, gohirio neu ganslo'r digwyddiad heb rybudd. Ni fydd Dinas a Sir Abertawe'n atebol i ddeiliaid tocynnau o ran oedi, gohirio neu ganslo o'r fath.
20. Ni chaiff unrhyw weithgaredd masnachol neu hyrwyddol/hysbysebu marchnata ei gynnal yn y digwyddiad neu gerllaw iddo.
21. Ni all y rhai sy'n dod i'r digwyddiad gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y mae'r trefnwyr yn ystyried ei fod yn ymwneud â marchnata neu hysbysebu anawdurdodedig (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, farchnata unigol neu grŵp sy'n gynlluniedig).